**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

3ydd o Orffennaf, 2025

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till (Golan), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg)

**Ymddiheuriadau**

Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Megan Lloyd Williams (Golan), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)

**Datgan Buddiant**

Enid Egginton – Eitem 15 (Cynllunio)
Jess Williams - Eitem 8 (Mynwentydd) ac Eitem 9 (Llwybrau Cyhoeddus)

**Penderfyniadau**

Llwybrau Cyhoeddus - Trafodwyd y posibilrwydd o gael toriad ychwanegol o Hendregadredd i gefn Meysydd. Cytunwyd i gael ail doriad tua mis Medi/Hydref. GE yn cynnig a CW yn eilio.

Cronfa Gwynedd Ni / Cronfa Cymunedau Eryri - Penderfynwyd gwneud cais am y ddau grant. Penderfynwyd gwneud cais am arian i brynu offer fideo gynadleddau i'r neuaddau pentref i gyd o fewn y gymuned. Soniwyd am gael bwrdd gwybodaeth newydd i Penmorfa. Clerc i weithredu.

Cynllunio - C25/0451/36/DT – Glyn Mair, Garndolbenmaen, LL51 9TQ – Estyniad ac Addasiadau – Dim Gwrthwynebiad